NoFit State Circus: BAMBOO
Taith Canolbarth Cymru FAQ

TYWYN: Dydd Mawrth 28 Mai 12pm tan 12.45pm a 4pm tan 4.45pm

A Oes Angen i Mi Gael Tocyn?
Does dim tocynnau ac mae mynediad yn rhad ac AM DDIM. Sicrhewch eich bod yn cyrraedd 30 munud o leiaf cyn yr amser dechrau.

Gofynnir am roddion gwirfoddol ar y diwedd.

Ble mae'r digwyddiad?
Yn y WAL FURIOG anhygoel yng nghefn Parc Gwersylla a Charafannau Ynysymaengwyn ger Tywyn.
Cod post: LL36 9RY

Sut ydw i'n cyrraedd yno?

Sicrhewch eich bod yn cyrraedd 30 munud o leiaf cyn yr amser dechrau.

AR DROED: mae'r llwybr cerdded palmantog o Dywyn yn rhedeg ar hyd yr A493 tuag at Fryncrug i'r Parc Gwersylla a Charafannau Ynysmaengwyn. Mae'n cymryd tua 15-25 munud i gerdded y filltir o'r Llusern Hud ar hyd y llwybr gwastad.

BWS: - bydd y G21 a'r G24 yn mynd â chi o Fachynlleth a Dolgellau drwy 2 lwybr - ewch i www.lloysdcoaches.com i weld yr amserlenni.

TRÊN: - Mae'r rheilffordd Cambrian yn rhedeg i Dywyn o bob gorsaf rhwng Machynlleth a Phwllheli.

CAR: - Os ydych chi'n gyrru, parciwch yn Nhywyn a cherddwch. Mae nifer cyfyngedig o fannau parcio ar gael ar safle Ynysymaengwyn i ddeiliaid Bathodynnau Glas yn unig.

I'r rhai sydd ei angen, bydd modd DANFON ffrindiau a theulu i fynedfa'r Parc Carafannau.

A fydd modd i mi Barcio?
NID oes modd parcio ar y safle hwn ac eithrio deiliaid Bathodynnau Glas (Tua 15 lle). I'r rhai sydd ei angen, bydd modd DANFON ffrindiau a theulu i fynedfa'r Parc Carafanau.

Gweler 'Sut ydw i'n cyrraedd yno?' am fanylion y llwybr AR DROED

A yw plant yn gallu dod?
Mae croeso cynnes i blant ond os ydynt yn 12 oed neu'n iau, mae'n rhaid iddynt fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.

A yw cŵn yn gallu dod?
Ni chaniateir cŵn yng NGARDD FURIOG Ynysymaengwyn.

A yw hwn yn berfformiad lle bydd pobl yn eistedd?
Nac ydy. Bydd ambell i orchudd llawr ar gael i blant gael eistedd arnynt o flaen y sioe ac ychydig o seddau ar gadw i bobl anabl. Fel arall, lle sefyll yn unig sydd ar gael, ond mae croeso i bobl ddod â blancedi i eistedd arnynt.

A fydd Toiledau ar gael?
Bydd toiled unigol gyda mynediad anabl ar gael ger yr Ardd Furiog yn Ynysymaengwyn.

A fydd bwyd a diod ar gael ar y safle?
Na fydd. Dewch â dŵr yfed a snaciau gyda chi, a chofiwch fynd ag unrhyw sbwriel gyda chi ar y diwedd!

Sut fynediad sydd yna?
Mae palmant gwastad i gerdded arno o'r dref. Mae'n cymryd 15-25 munud.

Mae 15+ o fannau parcio ar gadw i ddeiliaid Bathodynnau Glas ar y safle, gyda mynediad drwy brif fynedfa Ynysymaengwyn oddi ar yr A483.

Mae'r ARDD FURIOG yn ardal o laswellt gwastad

Mae toiled â mynediad Anabl yn agos at ardal berfformio'r Wal Furiog.

Lle sefyll yn unig sydd yn y sioe ac eithrio ambell i orchudd llawr ar gyfer plant ac ychydig o gadeiriau mewn ardal sydd wedi'i neilltuo ar gyfer pobl anabl.

Y Tywydd a Threfniadau Wrth Gefn:
Cynhelir y sioeau yn yr awyr agored. Nid oes lle dan do wrth gefn gan nad oes yr un lleoliad yn Nhywyn yn ddigon uchel!!

Mae'r Bambŵ yn mynd yn llithrig iawn os yw'n gwlychu, felly mae'n debygol y bydd rhaid i ni ganslo neu ohirio'r sioe os bydd hi'n glawio. Bydd NoFit State yn gwneud eu gorau i gynnal y sioe, ond yn amlwg, nid ydym am weld unrhyw rai o'r perfformwyr syrcas yn cael eu hanafu.

MACHYNLLETH: Dydd Mercher 29 Mai 12pm tan 12.45pm a 4pm tan 4.45pm

A Oes Angen i Mi Gael Tocyn?
Does dim tocynnau ac mae mynediad yn rhad ac AM DDIM. Sicrhewch eich bod yn cyrraedd 30 munud o leiaf cyn yr amser dechrau.

Gofynnir am roddion gwirfoddol ar y diwedd.

Ble mae'r digwyddiad?
Ar y lawnt o flaen Y PLAS, ger Canolfan Hamdden Bro Dyfi ym Machynlleth. Cod post: SY20 8ER

Sut ydw i'n cyrraedd yno?|
Sicrhewch eich bod yn cyrraedd 30 munud o leiaf cyn yr amser dechrau.

AR DROED: Mae'n cymryd 3 munud o'r orsaf drenau. Cerddwch i lawr at y ffordd fawr a throwch i'r chwith. Wrth y Gofeb Ryfel dilynwch y ffordd i'r dde. Parhewch ar hyd Stryd Penrallt, heibio'r Tŵr

Cloc i'r PLAS a fydd ar yr ochr chwith. Mae modd cyrraedd y Plas o'r stryd fawr drwy gatiau'r parc gyferbyn â Chanolfan Owain Glyndŵr ar Heol Maengwyn.

BWS: Mae nifer o lwybrau bysiau yn arwain i Fachynlleth o bob cwr o Gymru, gan gynnwys y G21, G24, FF2, T2, T12, T28 – ewch i www.lloysdcoaches.com/bus-timetables/ i weld y llwybrau a'r amserlenni;

TRÊN: Mae Trafnidiaeth Cymru yn rhedeg trenau o Aberystwyth drwy Fachynlleth i Birmingham International. Mae'r rheilffordd Cambrian yn rhedeg o Fachynlleth i Bwllheli.

CAR: Os ydych chi'n gyrru, mae meysydd parcio talu ac arddangos yn y Plas a Chanolfan Hamdden Bro Dyfi, neu gallwch gerdded drwy'r prif faes parcio talu ac arddangos mawr ym Machynlleth, y gellir cyrraedd ato o Heol Maengwyn yna Lôn y Banc.

A fydd modd i mi Barcio?
BYDD. Mae meysydd parcio talu ac arddangos yn y Plas a Chanolfan Hamdden Bro Dyfi neu gallwch gerdded drwy'r prif faes parcio mawr ym Machynlleth, y gellir cyrraedd ato o Heol Maengwyn yna Lôn y Banc.

A yw plant yn gallu dod?
Mae croeso cynnes i blant ond os ydynt yn 12 oed neu'n iau, mae'n rhaid iddynt fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.

A yw hwn yn berfformiad lle bydd pobl yn eistedd?
Nac ydy. Bydd ambell i orchudd llawr ar gael i blant gael eistedd arnynt o flaen y sioe ac ychydig o seddau ar gadw i bobl anabl. Fel arall, lle sefyll yn unig sydd ar gael, ond mae croeso i bobl ddod â blancedi i eistedd arnynt.

A fydd Toiledau ar gael?
BYDD - bydd toiledau ar gael yn Y Plas tan 5.30pm.

A fydd bwyd a diod ar gael ar y safle?
BYDD. Bydd caffi'r Plas ar agor tan 5.30pm

Sut fynediad sydd yna?
Mae'r lawnt o flaen Y PLAS yn ardal o laswellt gwastad wedi'i hamgylchynu gan lwybrau cerdded palmantog, o fewn pellter gwylio.

Mae toiledau a mynediad Anabl ar gael yn Y Plas ac yng Nghanolfan Hamdden Bro Dyfi.

Mae mannau parcio Anabl ar gael o flaen Canolfan Hamdden Bro Dyfi.

Bydd rhai cadeiriau ar gadw mewn ardal wylio ar gyfer pobl anabl.

Y Tywydd a Threfniadau Wrth Gefn:
Cynhelir y sioeau yn yr awyr agored.

Mae'r Bambŵ yn mynd yn llithrig iawn os yw'n gwlychu, felly mae'n debygol y bydd rhaid i ni ganslo neu ohirio'r sioe os bydd hi'n glawio. Bydd NoFit State yn gwneud eu gorau i gynnal y sioe, ond yn amlwg, nid ydym am weld unrhyw rai o'r perfformwyr syrcas yn cael eu hanafu.

Y DRENEWYDD: Dydd Iau 30 Mai 12pm tan 12.45pm a 4pm tan 4.45pm

A Oes Angen i Mi Gael Tocyn?
Does dim tocynnau ac mae mynediad yn rhad ac AM DDIM. Sicrhewch eich bod yn cyrraedd 30 munud o leiaf cyn yr amser dechrau.

Gofynnir am roddion gwirfoddol ar y diwedd.

Ble mae'r digwyddiad?|
Drws nesaf i ORIEL DAVIES GALLERY ar y glaswellt yn y Parc wrth ymyl yr Orsaf Fysiau. Cod post: SY16 2NZ

Sut ydw i'n cyrraedd yno?
Sicrhewch eich bod yn cyrraedd 30 munud o leiaf cyn yr amser dechrau.

AR DROED: Mae'n cymryd 7 munud i gerdded o orsaf drenau'r Drenewydd. Dilynwch y llwybr cerdded gyferbyn â'r orsaf, a throwch i'r chwith o Adeilad a maes parcio Pryce Jones, i lawr i'r ffordd fawr (Ffordd Newydd). Gan groesi'n syth drosodd wrth y goleuadau, parhewch i fyny Stryd yr Eglwys Newydd. Croeswch wrth y groesfan i mewn i'r parc. O ganol y dref, cerddwch at ddiwedd y Stryd Fawr neu drwy ganolfan siopa Bear Lanes tuag at yr Orsaf Fysiau.

BWS: Mae nifer o gwmnïau bysiau yn gwasanaethu'r Drenewydd gan gynnwys National Express 409 o Lundain i Aberystwyth a llwybrau 41A, 81, 84, 86A, 86B, 86C, T4, T12, X47 a X75. Mae'r ORSAF FYSIAU drws nesaf i ORIEL DAVIES. Am fanylion gweler www.bustimes.org/localities/newtown-powys neu

TRÊN: - Mae Trafnidiaeth Cymru yn rhedeg trenau o Aberystwyth i Birmingham International drwy'r Drenewydd. www.traveline.cymru/journeyplanner/

CAR: - Os ydych yn gyrru, mae maes parcio cyhoeddus talu ac arddangos ar gael union gyferbyn ag ORIEL DAVIES.

A fydd modd i mi Barcio?
BYDD. Mae maes parcio talu ac arddangos ar gael union gyferbyn ag ORIEL DAVIES

A yw plant yn gallu dod?
Mae croeso cynnes i blant ond os ydynt yn 12 oed neu'n iau, mae'n rhaid iddynt fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.

A yw hwn yn berfformiad lle bydd pobl yn eistedd?
Nac ydy. Bydd ambell i orchudd llawr ar gael i blant gael eistedd arnynt o flaen y sioe ac ychydig o seddau ar gadw i bobl anabl. Fel arall, lle sefyll yn unig sydd ar gael, ond mae croeso i bobl ddod â blancedi i eistedd arnynt.

A fydd Toiledau ar gael?
BYDD - bydd toiledau ar gael yn Oriel Davies yn ogystal â thoiledau cyhoeddus.

A fydd bwyd a diod ar gael ar y safle?

BYDD. Bydd caffi ORIEL DAVIES ar agor tan 3.30pm

Sut fynediad sydd yna?
Mae'r ardal y drws nesaf i ORIEL DAVIES yn ardal o laswellt gwastad wrth ymyl ardal balmantog o fewn pellter gwylio.

Mae toiledau a mynediad Anabl ar gael yn ORIEL DAVIES.

Bydd rhai cadeiriau ar gadw mewn ardal wylio ar gyfer pobl anabl.

Mae mannau parcio Anabl ar gael yng nghefn Oriel Davies yn ogystal ag yn y prif faes parcio.

Y Tywydd a Threfniadau Wrth Gefn:

Cynhelir y sioeau yn yr awyr agored.

Mae'r Bambŵ yn mynd yn llithrig iawn os yw'n gwlychu, felly mae'n debygol y bydd rhaid i ni ganslo neu ohirio'r sioe os bydd hi'n glawio. Bydd NoFit State yn gwneud eu gorau i gynnal y sioe, ond yn amlwg, nid ydym am weld unrhyw rai o'r perfformwyr syrcas yn cael eu hanafu.